

## Cyfle ar gyfer Cymrodoriaeth Ymchwil Llywodraeth Cymru

SEFYDLIAD CYFLOGI	
<b>Enw</b>	Llywodraeth Cymru
<b>Adran</b>	Uned Tystiolaeth Strategol, Yr Amgylchedd a Materion Gwledig
<b>Cyswllt</b>	<a href="mailto:Caryl.williams041@gov.wales">Caryl.williams041@gov.wales</a>
<b>Teitl y prosiect ymchwil</b>	Datblygu Fframwaith Canlyniad a Dangosydd ar gyfer Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol (SMNR): Mapio ac ymgysylltu i lywio'r canlyniadau allweddol y dylem fod yn canolbwyntio arnynt er mwyn darparu SMNR a'r mesurau y dylem eu defnyddio i ddangos cynnydd Cymru tuag atynt.
<b>Trefniadau gweithio</b> <i>(lleoliad, oriau, rheoli a'r gefnogaeth a gynigir gan y sefydliad)</i>	<p>Mae <a href="#">Canllawiau Covid-19</a> presennol LIC yn gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus gynnal yr ymchwil o bell. Fel a phan fydd canllawiau yn newid a rheolau lechyd a Diogelwch yn caniatáu, bydd presenoldeb cyfnodol mewn cyfarfodydd yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn ofynnol.</p> <p>Bydd mynediad at gynghorwyr, dadansoddwyr a chydweithwyr polisi perthnasol ar gael i gefnogi'r rôl hon, yn ogystal â mynediad at rwydweithiau gwyddoniaeth ehangach Llywodraeth y DU a'r byd gwyddoniaeth academaidd.</p>
<b>Partneriaid / Rhaddeiliaid</b> <i>(perthnasol i'r prosiect)</i>	Gwahoddir yr ymgeisydd llwyddiannus i fod yn aelod o grŵp arbenigol LIC/SoNaRR CNC a Grŵp Goruchwylio Gwyddoniaeth a Thystiolaeth Llywodraeth Cymru (sy'n cyfarfod oddeutu bob chwarter) ar gyfer cyfnod y swydd.

MANYLEB YR YMCHWIL		
<b>Teitl y Prosiect</b>	Datblygu Fframwaith Canlyniad a Dangosydd ar gyfer SMNR: Mapio ac ymgysylltu i lywio'r prif ganlyniadau y dylem fod yn canolbwyntio arnynt er mwyn darparu Rheolaeth Gynaliadwy ar Adnoddau Naturiol a'r mesurau y dylem eu defnyddio i ddangos cynnydd Cymru tuag atynt	
<b>Hyd</b>	12-18 mis, gydag isafswm o dri diwrnod/wythnos ar gyfartaledd	<p><b>Dyddiad dechrau arfaethedig</b></p> <p>Ionawr 2023 ond mae posibilrwydd dechrau'r gymrodoriaeth yn gynt os bydd amgylchiadau'r ymgeisydd llwyddiannus yn caniatáu hyn. Gellid cael rhywfaint o hyblygrwydd ynghylch y dyddiad dechrau gyda'r ymgeisydd iawn.</p>
<b>Crynodeb o'r maes ymchwil a chyd-destun polisi</b> <i>(500 gair)</i>	<ul style="list-style-type: none"> <li>i ba raddau y mae rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yn cael ei gyflawni</li> </ul> <p>Mae canllawiau statudol yn ychwanegu y dylai'r adroddiad ddarparu llinell sylfaen a mesur sut mae Cymru yn symud ymlaen tuag at SMNR, gan gynnwys set o ddangosyddion SMNR</p> <p>Mae CNC wedi datblygu'r dull a ddefnyddir i asesu SMNR trwy gyhoeddi'r 2 adroddiad cyntaf. Ym mis Rhagfyr 2020, roedd <a href="#">SoNaRR 2020</a> yn cynnwys asesu 4 nod SMNR a chyflwynodd y Cofrestrau Adnoddau Naturiol. Mae 4 nod SMNR yn cael eu diffinio fel a ganlyn ar hyn o bryd, a'n dewis ni fyddai datblygu Fframwaith Canlyniad – Dangosydd sy'n ategu ac yn cyd-fynd a'r 4 nod cyffredinol hyn.</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>Mae stociau o adnoddau naturiol yn cael eu diogelu a'u gwella</li> <li>Mae ecosystemau yn gallu gwrthsefyll newidiadau disgwyledig ac annisgwyl</li> <li>Mae gan Gymru leoedd iach i bobl, wedi'u hamddiffyn rhag risgiau amgylcheddol</li> <li>Economi Adfywiol gyda lefelau cynaliadwy o gynhyrchu a bwyta</li> </ol>	

## Cyfle ar gyfer Cymrodoriaeth Ymchwil Llywodraeth Cymru

	<p>Cynigir y byddai Fframwaith Canlyniadau a Dangosydd yn adeiladu ar y ddau adroddiad SoNaRR diwethaf a byddai'n rhan o'r asesiad cyffredinol o SMNR a welir yn SoNaRR 2025.</p> <p><b>Y cyd-destun ehangach</b></p> <p>Dylai Fframwaith Canlyniadau a Dangosydd SMNR fod yn gyson ac yn cyd-fynd â Dangosyddion Cenedlaethol Cymru, a cherrig milltir cysylltiedig, sy'n golygu bod modd mesur Cymru wrth symud ymlaen gyda Llesiant y Genedl a chysylltiadau â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenedloedd Unedig. Mae cerrig milltir eisoes wedi'u gosod ar gyfer rhai dangosyddion cenedlaethol, gyda mwy yn cael eu gosod erbyn diwedd eleni.</p> <p>Bydd angen i'r gwaith gyd-fynd yn agos â Thargedau Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang ôl-2020 a bydd angen i Gymru fabwysiadu'r targedau hyn. Mae LIC yn y broses o benodi Cymrawd Ymchwil ar wahân ar hyn o bryd i gefnogi ar ddatblygu'r targedau natur statudol hyn i Gymru, felly mae'n hanfodol bod y ddau ddarn o waith yn ategu ei gilydd.</p> <p>Bydd angen ystyried canlyniadau ystyrllon a bydd angen i'r dangosyddion, neu'r mynegeion sy'n rhoi'r mesur mwyaf ystyrllon o'r canlyniad ar lefel system inni, hefyd ystyried ac adeiladu ar waith sy'n bodoli eisoes ac sy'n datblygu ar ganlyniadau a dangosyddion mewn lle ar draws meysydd polisi penodol o fewn Llywodraeth Cymru, er enghraifft dangosyddion Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru.</p>
<p><b>Allbynnau disgwylidig</b> (250 gair)</p>	<p>Yn ystod 2 fis cyntaf y rôl, bydd disgwyl i'r ymgeisydd ddatblygu cynllun gwaith rhaglen ac allbynnau y cytunwyd arnynt ar gyfer cyfnod y contract. Disgwylir y bydd rhywfaint o hyblygrwydd yn y rhaglen i adlewyrchu sgiliau ac arbenigedd yr ymgeisydd llwyddiannus a newidiadau o ran blaenoriaethau. Mae hyblygrwydd hefyd i'r cymrawd weithio llai o ddiwrnodau/wythnosau yn ystod y cyfnod cwmpasu hwn a chynyddu cyfran eu hamser a dreulir ar y gymrodoriaeth yn ystod y cyfnod dosbarthu.</p> <p>Yr allbynnau terfynol allweddol o'r gwaith hwn fydd:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Rhestr arfaethedig o ganlyniadau beirniadol a ddylai ymddangos mewn asesiad cyffredinol, seiliedig ar systemau o gynnydd Cymru wrth ddarparu'n unol â 4 nod SMNR</li> <li>2. Mynegeion, dangosyddion neu fetrigau arfaethedig ar gyfer pob un o'r Canlyniadau Critigol, gan gydnabod yr angen i allu ymgorffori dangosyddion newydd fel y bo data a dadansoddiadau mwy effeithiol yn sicrhau eu bod ar gael.</li> <li>3. Adroddiad byr, cymhwysol sy'n nodi'r rhesymeg dros y dull cyffredinol ac ar gyfer cynnwys pob un o'r canlyniadau arfaethedig, a metrigau ategol.</li> <li>4. Sleid/pecyn ategol a chyflwyniad yn nodi'r dull arfaethedig a'r cyfiawnhad ar ei gyfer.</li> </ol> <p>Bydd angen i'r Cymrawd gynnal nifer o weithgareddau er mwyn datblygu'r allbynnau terfynol hyn ac unwaith y cytunir ar gynllun gwaith (sy'n adlewyrchu cryfderau a buddiannau'r ymgeisydd llwyddiannus) byddem am weithio gyda'r Cymrawd i osod allan rhai tasgau allweddol a cherrig milltir cyflawni (gweler isod).</p>
<p><b>Manteision i'r sefydliad sy'n cyflogi</b> (250 gair)</p>	<p>Bydd manteision yr allbynnau hyn yn cael eu gwireddu yn y ffyrdd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cryfhau'r berthynas rhwng ymchwil academiaidd a'r llywodraeth.</li> <li>• Cynyddu arbenigedd datblygu fframwaith dangosydd yn y llywodraeth.</li> <li>• Dod â syniadau/arloesedd newydd i mewn gan arbenigwr profiadol ac arloesol.</li> <li>• Cyfle digynsail i Lywodraeth Cymru weithio gydag arbenigedd academiaidd i lywio polisi cyhoeddus yn ystod cyfnod pwysig o broblemau lluosog: argyfyngau'r hinsawdd a bioamrywiaeth, rheoli canlyniadau economaidd-gymdeithasol a iechyd Covid-19, a chyflwyno cyd-destun cymorth newydd i reolwyr tir yn dilyn ein hymadawiad â'r Undeb Ewropeaidd.</li> </ul>

## Cyfle ar gyfer Cymrodoriaeth Ymchwil Llywodraeth Cymru

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparu sylfaen dystiolaeth gadarn i gefnogi datblygiad polisi Llywodraeth Cymru a fydd yn helpu i fynd i'r afael â sut mae Cymru yn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy er budd cenedlaethau'r dyfodol.</li> <li>• Cyfle i ddangos effaith ymchwil y tu allan i'r byd academiaidd ar gymdeithas, polisi cyhoeddus a'r amgylchedd.</li> </ul>
<p><b>Amlinelliad o weithgareddau'r prosiect</b> (750 gair)</p>	<p>Yn ystod 2 fis cyntaf y rôl, bydd disgwyl i'r ymgeisydd ddatblygu rhaglen waith a chytuno ar gerrig milltir cyflenwi ar gyfer cyfnod y contract. Disgwylir y bydd rhywfaint o hyblygrwydd yn y rhaglen i adlewyrchu sgiliau ac arbenigedd yr ymgeisydd llwyddiannus a newidiadau o ran blaenoriaethau.</p> <p>Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn adeiladu ar yr asesiadau a wnaed yn SoNaRR2016 a SoNaRR2020 ac, yn arbennig, y defnydd o 4 nod SMNR. Byddant yn ystyried y dystiolaeth yng nghyd-destun polisi rhyngwladol, y DU a Chymru er mwyn datblygu fframwaith ganlyniadau sy'n gyson â gwaith arall sydd eisoes ar y gweill ar draws gwahanol feysydd polisi yn Llywodraeth Cymru (e.e. bioamrywiaeth, ansawdd aer, ansawdd dŵr ac ati)</p> <p>Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus archwilio, asesu a chreu'r sylfaen dystiolaeth ac ymgysylltu'n eang â defnyddwyr y fframwaith i ddatblygu fframwaith sydd wedi ei brofi'n drwyadl i sicrhau bod modd ei ddefnyddio ac sy'n cyfleu'n effeithiol agweddau allweddol ar Reoli Adnoddau Naturiol yng Nghymru yn Gynaliadwy.</p> <p>Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn adrodd ac yn trafod y cynnydd i grŵp arbenigol SoNaRR (sy'n cynnwys CNC a swyddogion LIC) yn fisol. Gall gweithgareddau allweddol y prosiect gynnwys:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Yn amlwg, diffiniwch anghenion LIC a CNC, drwy adolygu'r gwaith a wnaed hyd yma, y cyd-destun polisi sy'n dod i'r amlwg, ac ymgysylltu â defnyddwyr allweddol SoNaRR ac o fframwaith dangosydd canlyniadau posibl.</li> <li>2. Adolygu'r 'Fframweithiau Canlyniad a Dangosyddion' presennol neu debyg a ddefnyddir yn rhyngwladol (gan gynnwys y fframweithiau cysyniadol sy'n sail iddynt), gan nodi eu cryfderau a'u cyfyngiadau cymharol, yn ogystal â throsglwyddadwyedd nodweddion allweddol i gyd-destun Cymru. Gall enghreifftiau gynnwys <i>EEA Summary of past trends, outlook and prospect of meeting future policy objectives</i>, a <a href="#">Fframwaith monitro cynllun 25 mlynedd Defra</a>.</li> <li>3. Tynnwch ar arbenigedd disgyblu ei hun ac arbenigedd rhyngddisgyblaethol ehangach o rwydweithiau academiaidd wedi'u cynnull i benderfynu, a darparu cyfiawnhad dros: <ul style="list-style-type: none"> <li>• y canlyniadau beirniadol a ddylai ymddangos mewn fframwaith dangosydd canlyniadau lefel uchel sy'n asesu'r cynnydd tuag at Reoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol;</li> <li>• y metrigau mwyaf ystyrion i adrodd arnynt ar gyfer pob un o'r canlyniadau hyn, gan gydnabod yr angen i allu ymgorffori dangosyddion newydd wrth i ddata a dadansoddiad mwy effeithiol wneud y rhain ar gael.</li> <li>• y ffordd orau o gyfathrebu'r wybodaeth hon (e.e. boed yn gwbl feintiol, gan dynnu ar sgoriau RAG ac ati)</li> </ul> </li> <li>4. Ymgysylltu ar draws timau polisi LIC, tîm SoNaRR CNC a gyda rhanddeiliaid allweddol y tu allan i'r Llywodraeth i brofi a gwella'r fframwaith dangosydd canlyniadau arfaethedig yn rheolaidd.</li> </ol> <p>Drwy gydol y gymrodoriaeth byddem yn disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn gyfranogwr allweddol yn y gweithgor sy'n gyfrifol am ddatblygu SoNaRR 2025 ac i ymgysylltu'n eang â'r gymuned dystiolaeth o fewn Llywodraeth Cymru (e.e. drwy'r Grŵp Goruchwylio Gwyddoniaeth a Thystiolaeth) a CNC. Unwaith y bydd unigolyn wedi'i benodi,</p>

## Cyfle ar gyfer Cymrodoriaeth Ymchwil Llywodraeth Cymru

	bydd LIC yn cynnull gweithgor rhithwir sy'n cynnwys unigolion allweddol sy'n gyfrifol am ddatblygu dangosydd ar draws timau yn LIC a CNC. Bydd y grŵp hwn yn helpu i lunio'r prosiect ac yn gallu rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am y dangosyddion sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd neu y bwriedir eu cynnig ar gyfer y dyfodol.
<b>Manteision disgwylidig i'r ymgeisydd llwyddiannus</b> (500 gair)	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cryfhau dealltwriaeth o anghenion y llywodraeth a'r cyfle i ddylanwadu ar sut mae'r llywodraeth yn gweithio.</li> <li>• Cyfle digynsail i wir lywio a gwella'r defnydd o dystiolaeth yn Llywodraeth Cymru a CNC er mwyn gallu llunio polisiau'n well.</li> <li>• Cyfle i gyhoeddi ar ystyriaethau o'r hyn sy'n gwneud fframweithiau canlyniad-dangosydd effeithiol.</li> <li>• Datblygu perthynas weithio agosach â LIC a CNC</li> <li>• Cyfle am achos effaith Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil proffil uchel (REF)</li> </ul>
<b>Cefnogaeth y sefydliad cynnal</b>	Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael cefnogaeth drwy gydol y rhaglen ymchwil drwy weithio o fewn Uned Tystiolaeth Strategol yr Amgylchedd a Materion Gwledig. Bydd y prosiect yn cael ei reoli drwy Grŵp Llywio penodedig sy'n cynnwys unigolion o CNC a Llywodraeth Cymru. Gall y gwesteiwr gefnogi'r unigolyn i ddod o hyd i fentor academiaidd addas gyda phrofiad o gynghori'r llywodraeth ar faterion amgylcheddol tebyg os ydynt yn teimlo y byddai hyn yn werthfawr, fodd bynnag, byddai angen costio mentoriaeth i gost gyffredinol y gymrodoriaeth. Byddwn ni'n cytuno ar gyfleoedd rheolaidd i adolygu cynnydd i gynllun gwaith y cytunwyd arno, gan benderfynu ar ddiwygiadau iddo fel ac o'u nodi gan ganlyniadau'r ymchwil, ac yn gyffredinol arwain yr unigolyn i sicrhau canlyniad llwyddiannus a phrofiad gwerth chweil.
<b>Manyleb Person</b>	<p><i>Addysg</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Canol gyrfa/Academydd uwch</li> </ul> <p><i>Profiad</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymchwil gymhwysol mewn maes strategol o'r amgylchedd neu wyddoniaeth gymdeithasol sy'n ymwneud ag un neu fwy o 4 Nod SMNR.</li> <li>• Profiad yn dangos systemau a gallu cymhleth i ddod â ffurfiau amrywiol o dystiolaeth (cymdeithasol, gwyddoniaeth naturiol ac ati) at ei gilydd.</li> <li>• Profiad blaenorol o gyd-gynhyrchu gyda llunwyr polisi, yn ddelfrydol ar dystiolaeth lefel system, gwerthuso, a/neu ddefnyddio fframweithiau dangosydd canlyniadau.</li> <li>• Gwybodaeth a phrofiad penodol i Gymru, neu, ddangos gwybodaeth am gyd-destunau tebyg.</li> </ul> <p><i>Sgiliau / Galluedd</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y gallu i ymgysylltu'n eang ac adeiladu cysylltiadau gwaith effeithiol yn gyflym</li> <li>• Y gallu i gyfathrebu gwybodaeth gymhleth yn gryno ac mewn modd atyniadol</li> <li>• Y gallu i weithio'n hyblyg mewn amgylchedd tystiolaeth gymhwysol (h.y. gallu gwneud cyfnewidiad ystyriol a bod yn bragmataidd lle bo angen)</li> <li>• I feddwl yn greadigol a defnyddio dulliau newydd ac arloesol.</li> </ul>
<b>Cyllid</b>	Caiff y swydd ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a bydd yn destun ct to agreement of project costings submitted by the applicant
<b>Gwrthdaro Buddiannau</b>	Gall y rhain gynnwys er enghraifft, diddordebau masnachol a allai wrthdaro â maes astudio arfaethedig ac/neu aelodaeth ymgeisydd o grwpiau lobiö.
<b>Y broses ymgeisio</b>	Mae Llywodraeth Cymru o ddifrif wrth ddiogelu eich data . Os ydych yn cysylltu â Llywodraeth Cymru yna mae ein Hysbysiad Preifatrwydd yn esbonio sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth a'r ffyrdd yr ydym yn amddiffyn eich preifatrwydd.

## Cyfle ar gyfer Cymrodoriaeth Ymchwil Llywodraeth Cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a gaiff ei dderbyn yn Gymraeg yn cael ei ateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi cyn ymateb.

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain ac mae angen i chi drafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r gymrodoriaeth, neu os ydych am drafod sut y byddwn yn eich cefnogi os fyddwch yn llwyddiannus, cysylltwch â Caroline Fallone (Rheolwr Ymgysylltu Ymchwil ac Ymgysylltu Academiaidd) cyn gynted â phosibl i drafod eich gofynion ac unrhyw gwestiynau sydd gennych

Bydd y broses hon o benodi Cymrodoriaeth yn cael ei rheoli gan Lwyfan Amgylchedd Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Dylai ymgeiswyr gyflwyno'r dogfennau canlynol mewn ymateb i'r fanyleb ymchwil hon i [andy.schofield@epwales.org.uk](mailto:andy.schofield@epwales.org.uk)

1. CV a llythyr sy'n nodi profiad academiaidd
2. Methodoleg arfaethedig ar gyfer datblygu Fframwaith Dangosydd Canlyniadau ar gyfer asesu SMNR yng Nghymru (gan dynnu ar y cyd-destun a amlinellir uchod)
3. Costau a phrisio prosiect
4. Llythyr o gefnogaeth gan eich sefydliad academiaidd

### Dyddiad cau:

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ddogfennaeth uchod yw'r **19eg o Fedi**

Gall ymgeiswyr fod ar gyfnod Canol Gyrfa neu Uwch Ymchwilydd yn eu gyrfa neu'n gallu dangos profiad proffesiynol cyfatebol a gafwyd mewn sefydliad rhanddeiliaid.

Mae ymgeiswyr sydd â swydd academiaidd barhaol (neu gyfwerth mewn sefydliadau ar wahân i brifysgolion) hefyd yn gymwys.

Rhaid i'r ymgeisydd fod yn Brif Ymchwilydd a dim ond un cynnig y gall gyflwyno i'r fanyleb hon. Nid yw cyd-ymchwilydd neu ymchwilydd eraill a enwir yn gymwys.

### Cyfweliad ac Aseiad

#### Cam Un:

Gall ymgeiswyr fynd at Lywodraeth Cymru neu CNC i drafod y fanyleb cyn eu cyflwyno'n derfynol. Cysylltwch naill ai:

#### Llywodraeth Cymru:

Caryl Williams (Uned Tystiolaeth Strategol, Amgylchedd a Materion Gwledig) - [Caryl.Williams041@gov.wales](mailto:Caryl.Williams041@gov.wales)

#### Cyfoeth Naturiol Cymru:

Richard Cardwell (Tystiolaeth Integredig) - [Richard.Cardwell@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:Richard.Cardwell@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

Bydd pob cais sydd wedi dod i law yn cael ei asesu gan Banel Arbenigol Annibynnol o ymchwilydd y Llywodraeth a defnyddwyr sy'n cael eu cynnull gan [Blatfform Amgylchedd Cymru](#). Bydd y panel yn gwneud argymhellion ar y rhai sy'n addas er mwyn symud ymlaen i gamu dau o'r broses ymgeisio.

Mae'r meini prawf asesu sydd i'w defnyddio fel a ganlyn a noder nad ydynt wedi'u pwysoli:

1. Deall anghenion dadansoddol y gwesteiwr a gallu i amgyffred ac ymateb i'r rhain yn effeithiol ar gyflymder
2. Arbenigedd pwnc neu fethodolegol sy'n berthnasol i ofynion y gymrodoriaeth benodol
3. Y gallu i drosi gwybodaeth a dadansoddiadau cymhleth yn naratif ystyrion i gynulleidfa an-academaidd, ar lafar ac yn ysgrifenedig
4. Dealltwriaeth o heriau a chyfleoedd cyd-gynhyrchu a chydweithio gan gynnwys gyda'r rhai nad ydynt yn academyddion a'r gallu i ddylunio ac arwain gweithgarwch sy'n cefnogi cyfnewid gwybodaeth yn effeithiol rhwng ymchwil a pholisi
5. Gwerth am arian gan gynnwys lle y bo'n berthnasol i fentoriaeth a chefnogaeth sefydliadol ehangach

Rhoddir y raddfa raddio a ddefnyddir ar gam asesu yn Atodiad 1

Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod am ganlyniad Cam Un o'r broses ymgeisio.

### **Cam Dau:**

Ar gyfer ceisiadau sy'n symud ymlaen i Gam Dau, bydd ymgeiswyr yn cael eu gwahodd i fynychu panel cyfweld a chyflwyno eu dull arfaethedig o drafod ymhellach gyda'r panel.

Bydd pob cyfweiliad yn cael ei gynnal drwy blatfform Microsoft Teams a bydd yn cael ei ddefnyddio i holi ymhellach yn erbyn y meini prawf asesu.

Bydd yr holl ymgeiswyr yn cael gwybod am ganlyniad Cam Dau o'r broses ymgeisio ac yn cael adborth ar gais.

## **Atodiad 1: Pedwar Nod yr SMNR**

Socio-economic pressures on natural resources - **Pwysau economaidd-gymdeithasol ar adnoddau naturiol**

Aim 4 – A regenerative economy - **Nod 4 – Economi adfywiol**

Aim 1 – Stocks of natural resources are safeguarded and enhanced - **Nod 1 –**

**Mae stociau o adnoddau naturiol yn cael eu diogelu a'u gwella**


The state of natural resources, ecosystems and health affects economic opportunities - **Mae cyflwr adnoddau naturiol, ecosystemau a iechyd yn effeithio ar gyfleoedd economaidd**

State of natural resources affects ecosystem resilience - **Cyflwr adnoddau naturiol yn effeithio ar wytnwch ecosystemau**


Aim 3 – healthy places for people - **Nod 3 – lleoedd iach i bobl**

Aim 2 – resilient ecosystems - **Nod 2 – ecosystemau gwydn**

## State of ecosystem resilience affects the health of people and places – Gwynwch cyflwr ecosystemau yn effeithio ar iechyd pobl a lleoedd







Ecosystem - Ecosystem

Aim 1 – Stocks of natural resources are safeguarded and enhanced **Nod 1 –**

**Mae stociau o adnoddau naturiol yn cael eu diogelu a'u gwella**

Aim 2 – resilient ecosystems - **Nod 2 – ecosystemau gwydn**

Social – **Cymdeithasol**

Aim 3 – healthy places for people - **Nod 3 – lleoedd iach i bobl**

Economic – **Economaidd**

Aim 4 – A regenerative economy - **Nod 4 – Economi adfywiol**

**Atodiad 2: Graddfa Raddio ar gyfer Meini Praws Aseu**



## Cyfle ar gyfer Cymrodoriaeth Ymchwil Llywodraeth Cymru

Score	Description
<b>A score of 7 or above is a recommendation to consider shortlisting a proposal for interview. 10 is the highest score it is possible to give a proposal.</b>	
10	The proposal is <b>exceptional</b> in terms of overall fit to the person specification and assessment criteria. It <b>should definitely be shortlisted</b> on the basis of the applicant's skillset and research expertise.
9	The proposal is <b>outstanding</b> in terms of overall fit to the person specification and assessment criteria. It <b>should definitely be shortlisted</b> on the basis of the applicant's skillset and research expertise.
8	The proposal is <b>excellent</b> in terms of overall fit to the person specification and assessment criteria. It <b>could be shortlisted as a priority</b> but would benefit from some clarifications in interview.
7	The proposal is <b>very good</b> in terms of overall fit to the person specification and assessment criteria. It <b>could be shortlisted but not as a priority</b> and some clarifications in interview would be necessary.
<b>A score of 6 or below is a recommendation <u>not</u> to shortlist a proposal. 1 is the lowest score it is possible to give a proposal.</b>	
6	Overall, the proposal is <b>good</b> in terms of the overall fit to the person specification and assessment criteria but not of a consistently high quality. The proposal is not strong on all essential areas of the person specification, and clarifications in interview would be required to address these gaps. It <b>should not be considered for shortlisting</b> .
5	Overall, the proposal is <b>good</b> in terms of the overall fit to the person specification and assessment criteria but not of a consistently high quality. The proposal is weaker on multiple essential areas of the person specification, and significant clarifications in interview would be required to address this. It <b>should not be considered for shortlisting</b> .
4	The proposal has some strengths in terms of the person specification and assessment criteria. However, there are significant gaps that are not amenable to clarification in interview. The proposal is not of a consistently high quality and should not be considered for shortlisting.
3	The proposal is acceptable in terms of person specification and assessment criteria. However, there are consistent and significant weaknesses, and the proposal is not of a sufficiently high quality to be considered for shortlisting.
2	The proposal is acceptable on some assessment criteria but does not sufficiently fit the person specification and assessment criteria to be considered for shortlisting.
1	The proposal is flawed in its structure and content, does not fit with the person specification and assessment criteria, or is otherwise judged not worth pursuing.

### Sgôr Disgrifiad

Mae sgôr o 7 neu uwch yn argymhelliad i ystyried gosod cynnig ar y rhestr fer ar gyfer cyfweiliad. 10 yw'r sgôr uchaf y gellir ei roi i gynnig.

**10** – Mae'r cynnig yn **eithriadol** o ran addasrwydd cyffredinol l'r manyleb person a'r meini prawf asesu. Dylid yn bendant **ei roi ar y rhestr fer** o ran sgiliau'r ymgeisydd a'u harbenigedd ymchwil.

**9** - Mae'r cynnig yn **neilltuol** o ran addasrwydd cyffredinol l'r manyleb person a'r meini prawf asesu. Dylid yn bendant **ei roi ar y rhestr fer** o ran sgiliau'r ymgeisydd a'u harbenigedd ymchwil.

## Cyfle ar gyfer Cymrodoriaeth Ymchwil Llywodraeth Cymru

**8** - Mae'r cynnig yn **rhagorol** o ran addasrwydd cyffredinol i'r manyleb person a'r meini prawf asesu. Gellid ei **roi ar y rhestr fer fel blaenoriaeth** ond byddai'n elwa o eglurhad yn y cyfweliad.

**7** - Mae'r cynnig yn **dda iawn** o ran addasrwydd cyffredinol i'r manyleb person a'r meini prawf asesu.

**Mae sgôr o 6 neu is yn argymhelliad i beidio rhoi cynnig ar y rhestr fer. 1 yw'r sgôr isaf y gellir ei roi i gynnig.**

**6** – Ar y cyfan mae'r cynnig yn **dda** o ran addasrwydd cyffredinol i'r manyleb person a'r meini prawf asesu ond nid yw o safon uchel cyson. Nid yw'r cynnig yn gryf ar bob agwedd hanfodol ar y manyleb person, a byddai angen eglurhad mewn cyfweliad i fynd i'r afael â'r bylchau hynny. **Ni ddylid ei ystyried ar gyfer y rhestr fer.**

**5** - Ar y cyfan mae'r cynnig yn **dda** o ran addasrwydd cyffredinol i'r manyleb person a'r meini prawf asesu ond nid yw o safon uchel cyson. Mae'r cynnig yn wanach ar nifer o agweddau hanfodol ar y manyleb person, a byddai angen eglurhad sylweddol mewn cyfweliad i fynd i'r afael â'r bylchau hyn. **Ni ddylid ei ystyried ar gyfer y rhestr fer.**

**4** – Mae gan y cynnig rai cryfderau o ran manyleb person a'r meini prawf asesu. Fodd bynnag, mae nifer o fylchau na fyddai'n bosibl eu hegluro mewn cyfweliad. Nid yw'r cynnig o safon uchel cyson ac ni ddylid ei ystyried ar gyfer y rhestr fer.

**3** – Mae'r cynnig yn dderbyniol ran manyleb person a'r meini prawf asesu. Fodd bynnag, mae gwendidau niferus a sylweddol, ac nid yw'r cynnig o safon digon uchel i'w ystyried ar gyfer y rhestr fer.

**2** – Mae'r cynnig yn dderbyniol o ran rhai meini prawf asesu ond nid yw'n cyd-fynd â'r manyleb person a'r meini prawf asesu yn ddigonol i gael ei ystyried ar gyfer y rhestr fer.

**1** – Mae diffygion o ran strwythur a chynnwys y cynnig, nid yw'n cyd-fynd â'r manyleb person a'r meini prawf asesu, neu caiff ei ystyried yn anaddas am resymau eraill.